The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

# Nodyn o'r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Cyfeirnod ffeil** | EN010007 & EN020015 |
| **Statws** | **Terfynol** |
| **Awdur** | Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| **Dyddiad** | **19 Mawrth 2018** |
| **Cyfarfod â** | Cyngor Sir Ynys Môn |
| **Lleoliad** | Temple Quay House, Bryste |
| **Yn bresennol** | **Yr Arolygiaeth Gynllunio**<br>Chris White - (Arweinydd Cynllunio Seilwaith)<br>Kay Sully - (Rheolwr Achos)<br>Hefin Jones - (Rheolwr Achos)<br>Karl-Jonas Johansson - (Swyddog Achos)<br>**Cyngor Sir Ynys Môn**<br>Kathrine Haddrell – Swyddog Gorchmynion Caniatâd Datblygu<br>Angharad Crump – Swyddog Gorchmynion Caniatâd Datblygu<br>Trefor Jones – Rheolwr Gorchmynion Caniatâd Datblygu<br>Dylan Williams – Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br>Liz Davies - Rheolwr Cyflenwi Rhaglen Ynys Ynni |
| **Amcanion y cyfarfod** | Prosiectau Seilwaith Cenedlaethol Arwyddocaol ar Ynys Môn |
| **Cylchrediad** | Pawb a oedd yn bresennol |

## Crynodeb o bwyntiau allweddol a drafodwyd a chyngor a roddwyd

Cyflwynodd staff Cyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor) a thîm yr Arolygiaeth Gynllunio (yr Arolygiaeth) eu hunain a'u rolau unigol. Amlinellodd yr Arolygiaeth ei pholisi ynglŷn â bod yn agored, gan sicrhau bod y rhai a oedd yn bresennol yn deall y byddai unrhyw faterion a drafodwyd a chyngor a roddwyd yn cael eu cofnodi a'u rhoi ar wefan yr Arolygiaeth o dan adran 51 Deddf Cynllunio 2008. At hynny, eglurwyd na fyddai unrhyw gyngor a roddwyd yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol y gallai'r Ymgeisydd (neu bobl eraill) ddibynnu arno.

### Diweddariadau ar yr archwiliad

Cadarnhaodd y Cyngor ei fod wedi derbyn llythyr cynhesu ynglŷn ag Wylfa oddi wrth yr Arolygiaeth a'i fod wedi sefydlu blwch post penodol ar gyfer y prosiectau.

Dywedodd y Cyngor fod trafodaethau'n parhau ynglŷn â lleoliadau. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd angen trafod cyn gynted â phosibl os bwriedir defnyddio Siambr y Cyngor fel y gellir trefnu hynny ar ddyddiadau tawelach pan na fydd cyfarfodydd ffurfiol yr awdurdod lleol yn cael eu cynnal, oherwydd gallai ychydig fwy o le parcio fod ar gael. Mae maes sioe Môn yn rhwydd ei gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus (er y gallai fod angen darparu bws gwennol i'r safle i bobl ag anawsterau symudedd oherwydd bod yr adeilad cryn bellter o'r safle bws).

Trafodwyd faint o bobl y gellid eu disgwyl o bosibl yn y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r gwrandawiadau. Dywedodd yr Arolygiaeth fod y Cyfarfod Rhagarweiniol a'r Gwrandawiadau Llawr Agored yn tueddu i ddenu'r nifer fwyaf o bobl. Oherwydd bod modd cynnal y Gwrandawiadau Llawr Agored mewn lleoliadau amrywiol, mae llai o bobl yn bresennol ynddynt fel arfer nag yn y Cyfarfod Rhagarweiniol. Cadarnhaodd yr Arolygiaeth ei bod wedi amlygu rhai lleoliadau addas ar gyfer y ddau archwiliad. Dywedwyd wrth y Cyngor er bod cysylltiad Wi-Fi da yn ddymunol iawn, nid yw'n un o'r gofynion hanfodol ar gyfer lleoliad gwrandawiad. Ailadroddodd y Cyngor yr angen am fynediad Wi-Fi da ar gyfer pawb y mae angen iddynt gadw mewn cysylltiad a rhannu dogfennau â'u swyddfeydd / cydweithwyr / cyfieithwyr ac ati. Mae cysylltiadau data symudol ar draws yr ynys yn 'fylchog', felly ni ellir dibynnu ar y rhwydwaith ffôn symudol ar gyfer hyn.

Mae'r Heddlu wedi mynegi pryderon ynglŷn â phroblemau traffig posibl a allai godi yn sgil nifer y bobl y mae'n eu disgwyl yng Nghyfarfod Rhagarweiniol Cysylltiad Gogledd Cymru. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu i reoli'r sefyllfa.

Dywedodd yr Arolygiaeth wrth y Cyngor fod yr Ymgeisydd yn trefnu diogelwch ar gyfer y digwyddiadau yn ystod yr archwiliadau. Eglurwyd ymhellach bod gan yr Ymgeisydd berthynas dda â'r Heddlu lleol.

**Amserlen yr archwiliad**

Mynegodd y Cyngor bryderon ynglŷn â'r gwrthdaro posibl o ran dyddiadau gwrandawiadau a therfynau amser ar gyfer cyflwyno y rhagwelai y gallent ddigwydd ym mis Tachwedd 2018 hyd at fis Ionawr 2019. Dywedodd yr Arolygiaeth wrth y Cyngor ei bod yn gweithio ar lunio dwy amserlen archwiliad sy'n cynnwys cyn lleied o orgyffwrdd â phosibl er mwyn lleihau'r effaith ar bob parti gymaint â phosibl. Byddai amserlen Wylfa'n ystyriaeth allweddol wrth lunio amserlen Cysylltiad Gogledd Cymru. Dywedodd yr Arolygiaeth y byddai'n ceisio osgoi cynnal unrhyw wrandawiadau ar yr un pryd ar gyfer y ddau brosiect, ac y byddai'n ceisio osgoi trefnu digwyddiadau yn ystod cyfnodau gwyliau allweddol pe byddai'n bosibl, er y bydd hyn yn anochel weithiau.

**Llyfrgell Ddogfennau**

Cadarnhawyd bod yr Arolygiaeth wedi derbyn y rhestr o lyfrgelloedd posibl y gellid eu defnyddio fel lleoliadau adneuo. Ailadroddodd yr Arolygiaeth ei bod yn annog gweithio'n electronig ac nad yw'n anfon copïau caled o ddogfennau i leoliadau adneuo fel mater o drefn; yr arfer presennol yw cyfeirio unigolion â buddiant at lyfrgelloedd cyhoeddus a mannau eraill sydd wedi cytuno i weithredu fel lleoliadau adneuo electronig. Fodd bynnag, bydd gan y Cyngor gopïau caled o ddogfennau ar gyfer y ddau Archwiliad ar gael i'w gweld yn y Ganolfan Fusnes yn Llangefni.

**Diweddariad ar Wylfa Newydd**

Cadarnhaodd y Cyngor nad oes penderfyniad wedi cael ei wneud ynglŷn â'r ddau gais o dan y Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref a gyflwynwyd gan Horizon ar gyfer gwaith clirio safle a gwella'r briffordd. Gofynnodd Cyngor Sir Ynys Môn i Horizon ddarparu mwy o wybodaeth ym mis Chwefror 2018. Hyd nes y derbynnir y wybodaeth hon, ni all Cyngor Sir Ynys Môn ddatgan pryd y bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y ddau gais.

**Diweddariad ar Gysylltiad Gogledd Cymru**

Trafodwyd y dyddiad cyflwyno disgwyliedig. Dywedodd y Cyngor fod cais Cysylltiad Gogledd Cymru yn debygol o gael ei gyflwyno ym mis Gorffennaf 2018. Fodd bynnag, eglurodd yr Arolygiaeth fod yr

Ymgeisydd wedi rhoi gwybod iddi'n ddiweddar yn ystod telegynhadledd mai'r dyddiad cyflwyno disgwyliedig yw diwedd mis Mehefin 2018 o hyd; mae'r Ymgeisydd yn adolygu'r dyddiad hwnnw.

Mynegodd y Cyngor bryderon ynglŷn â'r rhannau o'r Datganiad Amgylcheddol yr oedd y Grid Cenedlaethol wedi'u hanfon i'r Cyngor i'w hadolygu, nad oedd wedi'u gweld o'r blaen, ac eglurodd mai ymateb y Grid Cenedlaethol i unrhyw ymholiadau a godwyd gan y Cyngor oedd y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn ddiweddarach. Eglurodd yr Arolygiaeth na allai wneud sylwadau ar unrhyw faterion a oedd gan y Cyngor mewn perthynas ag ymgynghoriad Cysylltiad Gogledd Cymru.

**Y Cyfarfod Nesaf**

Cytunwyd cynnal cyfarfod ym mis Mai ynglŷn â phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.

**Penderfyniadau penodol/ gwaith dilynol sy'n ofynnol?**

- Gofynnwyd i'r Cyngor anfon y cyfeiriad e-bost a'r manylion cyswllt wedi'u diweddaru i'r Arolygiaeth. Nodyn ôl-gyfarfod – Gwybodaeth wedi'i darparu.